# Pa anifeiliaid sy’n byw yn y Goedwig Law Celtaidd?

Yn yr ymchwiliad hwn byddwch yn dysgu am yr anifeiliaid sydd yn byw mewn Coedwigoedd Glaw Celtaidd.

Fedrwch archwilio’r perthynas rhyngddynt a’r cynefin Coedwig Glaw Celtaidd gan gynnwys eu gwe fwyd.

Hefyd cewch ymchwilio sut mae eu cylchoedd byw a ffyrdd o atgenhedlu, yn ogystal â’u patrymau ymddwyn ac addasiadau eraill yn effeithio ar eu siawns o oroesi.

Cewch ymchwilio’n ymhellach trwy ddilyn y dolennau i ragor o wybodaeth am y rhywogaethau ag esiamplau o waith cadwraeth berthnasol.





Ystlum pedol lleiaf
*Rhinolophus hipposideros*
Lesser Horseshoe Bat

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000 Life

# Beth yw Coedwig Law Celtaidd?




Dyma rhai nodweddion Coedwig Law Celtaidd:

- Coed hynafol iawn, rhai dros 400 mlwydd oed!
- Gwahanol fathau o goed brodorol, a choed o wahanol oedrannau
- Creigiau mawr wedi eu gorchuddio â mwsogl, coed sydd wedi marw a boncyffion yn pydru

Ac yn bwysicaf oll... llawer iawn, iawn o ddŵr glaw!

Cynefin yw Coedwig Law Celtaidd. Mae hyn yn golygu fod y nodweddion uchod yn creu ardal ac amodau amgylcheddol sydd yn cynnig cartref a bwyd i grŵp o organebau.

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES


# Pa anifeiliaid ydach chi'n meddwl sy'n byw mewn cynefin Coedwig Law Celtaidd?

Gwnewch restr o'r mathau o anifeiliaid 'dach chi'n meddwl sydd yn byw mewn cynefin Coedwig Law Celtaidd.

Fedrwch chi roi rhai enghreifftiau o rywogaethau penodol?

e.e. os 'dach chi'n meddwl bod ystlumod yn byw mewn Coedwig Law Celtaidd … ydach chi'n gwybod esiampl o fath o ystlum.

e.e. ydach chi'n gwybod pa adar sydd yn debygol o fyw mewn Coedwig Law Celtaidd.


©Wikimedia Commons

Pam dach chi wedi rhestri'r anifeiliaid yma tybed?

Os dach chi angen cymorth, beth am wylio'r fideo yma fel man cychwyn?

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

# Pa anifeiliaid sy'n byw yn y Goedwig Law Celtaidd?

Defnyddiwch yr adnoddau ar gael yma er mwyn dysgu mwy am anifeiliaid y Goedwig Law Celtaidd.

Beth am wneud eich ymchwil eich hunain trwy fynd allan yn y maes a chwilio am eu traciau, trywyddion, ac olion. Cofiwch wrando yn ogystal ag edrych. Oes coedwig gyfagos fedrwch fonitro yn rheolaidd?

Dilynwch y dolennau ar gyfer agor y llenni ar rhai o gyfrinachedd anifeiliaid gwyllt coedwigoedd yng Nghymru.




Gwybedog brith
*Ficedula hypoleuca*
Pied Flycatcher

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES

NATURA 2000